BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
REGIONAL PARTNERSHIP BOARD

Sioe Arddangos Gofal Cymdeithasol Digidol Gogledd Cymru 2025

Cyfleoedd i bartneriaid ac arddangoswyr

5ed Mawrth 2025
Venue Cymru, Llandudno

Helo!

Mae'n bleser o'r mwyaf gennym gael cyflwyno'r gynhadledd hon. Fel rhan o'n Bwrdd Digidol, Data a Thechnoleg iechyd a gofal cymdeithasol ar y cyd, bu i ni ymchwilio i arloesi digidol ar draws y rhanbarth. Yr hyn a amlygwyd oedd bod yna lawer o gyfleoedd i ddefnyddio technoleg, ond nad yw pobl o reidrwydd yn gwybod amdanyn nhw nac yn cael yr amser i ddysgu am bethau a rhoi cynnig arnyn nhw eu hunain. Bydd y digwyddiad hwn yn gyfle gwych i newid hynny.

Ochr yn ochr ag arddangosiadau o'r dechnoleg ddiweddaraf, o hyfforddiant realiti rhithwir a robotiaid Deallusrwydd Artiffisial i apiau lles a chynorthwywyr rhithiol, bydd man arddangos bywiog ar gael gyda rhaglen gyffrous o siaradwyr a gweithdai. Bydd llawer o gyfleoedd i bobl siarad a rhannu syniadau da ynglŷn â sut i ddefnyddio technoleg mewn ymarfer gofal cymdeithasol. Bydd hyn oll wedi'i seilio ar brofiad go iawn pobl o ofal cymdeithasol.

Y nod yw cynnal digwyddiad sydd mor hygyrch ag sy'n bosib, gyda chymysgedd o fannau i fyfyrio a mannau i gysylltu.
Edrychwn ymlaen at eich gweld chi yno, a diolch i chi am eich cefnogaeth!

Dylan Roberts
CPrif Swyddog Digidol a Gwybodaeth
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Huw Ynyr
Pennaeth TG, Cyngor Gwynedd

Am y sioe

Bydd y digwyddiad hwn y rhoi cyfle i'r bobl hynny sy'n defnyddio ac yn darparu gofal cymdeithasol i ganfod a rhoi cynnig ar dechnoleg ddigidol allai eu helpu i fyw eu bywydau'n llawn. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu'r dechnoleg ddiweddaraf sydd ar flaen y gad (er, mae yna le i chi yma hefyd!); gall fod yn ddyfeisiau bob dydd sy'n cael eu defnyddio mewn ffyrdd creadigol i helpu pobl fyw'n dda.

Rydym eisiau i bobl gael cyfle i roi cynnig ar bethau drostyn nhw'u hunain, i weld a ydyn nhw'n gweithio, felly dyma'ch cyfle chi i ddangos beth y gall eich technoleg ei wneud.

#sioearddangosddigidolgc

BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
REGIONAL PARTNERSHIP BOARD

Am y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (BPRh)

Sefydlwyd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru i fodloni Rhan 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r Bwrdd yn cydweithio â phartneriaid i gefnogi lles pobl o bob oed ar hyd a lled gogledd Cymru. Mae'r partneriaid yn cynnwys y chwe awdurdod lleol yng ngogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a phartneriaid statudol a gwirfoddol eraill, gan gynnwys y gwasanaeth tai, yr heddlu a'r gwasanaeth tân. Mae'r Bwrdd yn goruchwylio'r gwaith o gynllunio ac integreiddio gwasanaethau i sicrhau bod gofal a chymorth effeithiol ar gael i fodloni anghenion y boblogaeth.

Pwy fyddwch chi'n ei gyfarfod?

Bydd y digwyddiad hwn yn gyfle i chi gysylltu â chymuned gofal cymdeithasol gogledd Cymru, gan gynnwys:

- Pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal, gan gynnwys pobl hŷn, pobl sy'n byw gyda dementia, plant a phobl ifanc sydd ag anghenion gofal a chymorth, pobl ag anableddau dysgu a chyflyrau niwroddatblygiadol, pobl â chyflyrau iechyd meddwl a gofalwyr di-dâl.
- Gweithwyr cymdeithasol ac ymarferwyr gofal cymdeithasol.
- Comisiynwyr gofal cymdeithasol.
- Darparwyr gofal cymdeithasol cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, gan gynnwys darparwyr gofal cartref a gofal preswyl ac ysgolion.

Os ydych chi'n cyflenwi technolegau digidol i bobl yng ngogledd Cymru a'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol sy'n eu helpu, neu os hoffech chi wneud hynny, mae'r gynhadledd hon yn cynnig cyfle unigryw i chi godi eich proffil.

#sioearddangosddigidolgc

Pecynnau partneriaid

Diben y digwyddiad hwn yw archwilio'r rôl fwyfwy hanfodol y mae technolegau digidol yn ei chwarae yn ein bywydau, gan ganolbwyntio ar roi cyfle i bobl roi cynnig ar bethau drostyn nhw'u hunain i weld a fydden nhw'n eu helpu yn eu bywyd bob dydd.

Mae'n bleser gennym gael cynnig amrywiaeth o becynnau i roi'r cyfle i chi arddangos eich technoleg er mwyn i bobl gael gweld ei werth drostyn nhw'u hunain.

Drwy gynnig ein pecynnau noddi ac arddangos, rydym yn ceisio cydweithio â phartneriaid dibynadwy yn y diwydiant sy'n rhannu ein hethos ac sydd hefyd yn y sefyllfa orau i arddangos technoleg ddigidol o fewn y sector ynghyd ag arferion gorau at y dyfodol. Mae yna gyfleoedd i noddi, arddangos a hysbysebu fel rhan o'r digwyddiad.

I gyflenwyr technoleg ddigidol o'r sector gofal cymdeithasol a sectorau cysylltiedig, mae ein digwyddiad yn cynnig cyfle gwych i gysylltu â dirprwyon a hybu ymwybyddiaeth o'ch sefydliad.

Prif bartner y rhaglen (£15,000 plws TAW)

Mae'r pecyn hwn yn sicrhau presenoldeb amlwg i chi yn y paratoadau ar gyfer y digwyddiad a drwy gydol y digwyddiad ei hun. Drwy gyfuno amrywiaeth o gyfleoedd marchnata a rhoi lle blaenllaw i'ch logo a'ch brand yn ystod y digwyddiad, fe fyddwch chi'n siŵr o hyrwyddo eich proffil i'r eithaf a chynyddu eich cyrhaeddiad yng ngogledd Cymru.

Fel prif bartner y rhaglen, bydd eich logo a'ch brand i'w weld yn amlwg ar y prif lwyfan cyflwyno drwy gydol y digwyddiad.

Nid yw'r pecyn hwn yn cynnig cyfle i chi drefnu'r brif raglen. Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cadw'r hawl i bennu'r themâu, y siaradwyr a'r cyfranwyr.

- Eich enwi fel prif bartner rhaglen y Sioe Arddangos Gofal Cymdeithasol Digidol
- Hysbyseb wedi'i brandio a fydd yn cael ei rhannu â'r mynychwyr cyn y digwyddiad, i'w hannog i ddod draw.
- Eich logo a'ch brand i'w weld yn y lleoliad, ar wefan y gynhadledd ac ar ddeunyddiau cyfathrebu digidol cysylltiedig, gan gynnwys llawlyfr digidol y gynhadledd.
- Sylw i chi fel partner ar y cyfryngau cymdeithasol. Cael eich cynnwys mewn cyfres o negeseuon ar sianeli cyfryngau cymdeithasol y digwyddiad, gan gynhyrchu bwrlwm a chyffro o amgylch eich brand.
- Eich dewis chi o safle arddangos yn lleoliad y digwyddiad.
- Cynnwys logo eich cwmni ar bob un o brif lawlyfrau a deunyddiau'r gynhadledd.
- Mynediad i bob sesiwn agored.
- Cydnabyddiaeth o'ch cefnogaeth yn ystod y gynhadledd gan y cadeirydd a'r sawl sy'n cynnal y gynhadledd.
- Cyfle i roi cyflwyniad 15 munud o hyd yn ystod prif raglen y digwyddiad.
- Proffil 150 o eiriau a blog ar wefan y digwyddiad.
- Dolen i'ch gwefan chi ar ein gwefan ni.

Partner darparu'r digwyddiad (Rhwng £5,000 a £10,000 plws TAW, yn dibynnu ar lefel y mewnbwn y cytunir arno)

Dyma eich cyfle chi i gydweithio â threfnwyr y digwyddiad fel partner darparu swyddogol. Bydd hyn yn cynnwys seilwaith technegol i ddarparu'r digwyddiad, cofrestru a chymorth logistaidd a chludiant ar gyfer y digwyddiad. Darparu mannau cyfarfod ychwanegol ac ystafelloedd seibiant i gyfranogwyr gael gweithio neu orffwys a lluniaeth drwy gydol y digwyddiad.

Bydd y pecyn hwn yn golygu brandio mannau penodol o fewn y lleoliad gyda'ch logo chi, yn ogystal â rhoi cydnabyddiaeth i chi yn y llawlyfr digidol, ar wefan y gynhadledd ac mewn deunyddiau cyfathrebu cysylltiedig wrth baratoi ar gyfer y digwyddiad.

Partner Rhaglen y Gweithdai

Mae hyd at bum pecyn ar gael (£1,500 plws TAW yr un). Mae'r rhain ar gael i sefydliadau sy'n gweithio gyda phartneriaid y sectorau cyhoeddus neu wirfoddol neu bobl â phrofiad bywyd, er mwyn arddangos eu cyflawniadau yn ymarferol.

Y pecyn:

- Eich enwi fel 'Partner y Sioe Arddangos Gofal Cymdeithasol Digidol'.
- Eich logo ar wefan y gynhadledd ac ar ddeunyddiau cyfathrebu cysylltiedig.
- Cyfle i roi cyflwyniad i gynulleidfa gweithdy ar ddechrau'r sesiwn.
- Proffil 150 o eiriau ar wefan y gynhadledd.
- Dolen i'ch gwefan chi ar wefan y digwyddiad.
- Cyfle i noddi gweithdy ar thema benodol.
- Bydd partneriaid gweithdai yn cael cyfle i gynnal sesiwn fer ar ddechrau pob un o'r gweithdai hyn.

Siart cymharu pecynnau'r gynhadledd

	Main Programme Partner	Event delivery partner	Workshop programme partner
Logo placement: venue, web, communications	✓	✓	✓
Logo on conference literature	✓	✓	✓
Website link on conference website	✓	✓	✓
150-word web profile	✓	✓	✓
Delegate list access (GDPR Compliant)	✓	✓	
Access to open sessions	✓		
Named a 'Social Care Digital Showcase 2025 Partner'.	✓		

Cyfleoedd i arddangos

Mae arddangos yn ffordd arbennig o hyrwyddo eich technolegau digidol ymysg pobl sy'n defnyddio ac yn darparu gofal cymdeithasol. Mae arddangosiadau'n ganolog i'r digwyddiad ac yn rhoi cyfle i bobl weld drostyn nhw'u hunain sut y gallai technolegau newydd newid eu bywyd er gwell.

Bydd amseroedd i bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau ac yn darparu'r gwasanaethau yn cael eu trefnu fel rhan o'r digwyddiad. Byddwn yn cydweithio â chi i strwythuro'r digwyddiad i wneud yn siŵr eich bod yn gallu targedu prif ddefnyddwyr eich cynnyrch, boed y rheiny'n staff, aelodau'r cyhoedd neu'r ddau.

Mae pob pecyn yn cynnwys dau docyn arddangoswr; fe allwch chi brynu hyd at ddau docyn arddangoswr arall am bris o £120 plws TAW.

Mae pob pecyn yn cynnwys bwrdd gyda gorchudd arno, dwy gadair a chyflenwad trydan.

Cyfleoedd i arddangos

Pecyn Arian

(£1000 plws TAW i'r sector preifat, £750 plws TAW i'r sectorau cyhoeddus a gwirfoddol, £500 plws TAW i'r sector elusennol)

- Safle amlwg ym mhrif ardal y gynhadledd.
- Logo yn llawlyfr digidol y gynhadledd.
- Lluniaeth a chinio.

Gold package

(£2,000 plws TAW)

- Safle amlwg ym mhrif ardal y gynhadledd.
- Logo a Bywgraffiad byr (150 gair) yn llawlyfr digidol y gynhadledd.
- Logo, dolen a manylion y cwmni ar wefan y digwyddiad.
- Lluniaeth a chinio.

Hysbysebu

Mae'n bleser gennym gynnig y cyfle i chi hysbysebu yn ein llawlyfr digidol. Bydd y llawlyfr digidol ar gael i'w lawrlwytho am ddim i bawb sy'n dod i'r gynhadledd. Dyma'r lle swyddogol i gael y rhaglen lawn, felly bydd pawb sy'n dod i'r gynhadledd yn ei ddefnyddio i gynllunio eu profiad.

Mae hyn yn gyfle i sicrhau bod eich brand neu'ch cynnyrch yn hynod weledol i gynulleidfa o arweinwyr a rheolwyr y sector, sefydliadau budd-ddeiliaid a phobl â phrofiad bywyd. Bydd posteri yn gwahodd mynychwyr i lawrlwytho'r llawlyfr drwy god QR i'w gweld ar hyd a lled y lleoliad.

Cysylltwch â ni am brisio.

Nifer cyfyngedig o gyfleoedd i hysbysebu sydd ar gael, a byddant yn cael eu cynnig ar sail y cyntaf i'r felin.

Bydd angen i'r hysbyseb gael ei anfon fel PDF eglur iawn a rhaid iddo fod yn ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg.

#sioearddangosddigidolgc

BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
REGIONAL PARTNERSHIP BOARD

Rhagor o wybodaeth

Mae'r prisiau i gyd yn destun TAW.
I gael rhagor o wybodaeth neu i drafod pecyn sy'n addas i ofynion eich cyllideb chi, cysylltwch â:

01824 712038

HCARGC@sirddinbych.gov.uk

cydweithredfagogleddcymru.cymru

Byddwn yn ystyried ceisiadau i drafod cost pob pecyn. Nid yw derbyn nawdd yn golygu ein bod yn cymeradwyo nac yn cefnogi cynnyrch nac achos y noddwr; darllenwch y nodiadau a'r canllawiau isod.

#sioearddangosddigidolgc

Nodiadau a Chanllawiau

Partneriaeth

Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn gweithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth o sefydliadau. Ar gyfer y digwyddiad hwn, rydym yn ceisio cyfleoedd i gynhyrchu incwm drwy nawdd a hysbysebion gyda phartneriaid yn y diwydiant ac yn y sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol.

Er mwyn hybu eglurder a gonestrwydd, rydym wedi nodi ein trefniadau noddi, arddangos a hysbysebu. Ein nod yw hyrwyddo buddion gorau'r bobl sy'n defnyddio gofal cymdeithasol ac yn gweithio yn y maes, y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu a'r mannau rydym yn gweithio ynddyn nhw.

Bydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn:

- Meithrin perthynas gynhyrchiol gyda noddwyr, arddangoswyr a hysbysebwyr.
- Cynhyrchu incwm o'r partneriaethau hynny er mwyn sefydlu mentrau sydd o fudd i bobl sy'n defnyddio ac yn darparu gofal cymdeithasol.
- Ymddwyn yn agored ac yn dryloyw wrth ddelio â sefydliadau
- Gweithio ar fentrau nad ydyn nhw'n cyfaddawdu ar annibyniaeth nag enw da'r BPRh.
- Cydweithio â sefydliadau sy'n gyson â'n gwerthoedd ni.
- Sicrhau na all unrhyw gwmni/sefydliad ddisgwyl perthynas neilltuedig gyda'r BPRh na'i bartneriaid yn y sector cyhoeddus neu wirfoddol, a fyddai'n rhoi mantais i'r cwmni neu'r sefydliad hwnnw dros ei gystadleuwyr.

Gwahoddir darpar bartneriaid i gyflwyno datganiad o ddiddordeb, a bydd gofyn iddyn nhw ddangos y canlynol ynddo:

- Ymrwymiad i flaenoriaethau'r BPRh.
- Y gwerth y bydd eu partneriaeth yn ei gyfrannu i'r digwyddiad, i'r BPRh, i'r partneriaid ac iddyn nhw eu hunain.
- Cadarnhad nad yw unrhyw un o'r eithriadau penodol a restrir yn yr adran eithriadau yn berthnasol (er enghraifft, sefydliadau sy'n cefnogi gamblo, alcohol ac ati).

Cymeradwyaeth / defnyddio logo'r BPRh

Nid yw'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cymeradwyo cynhyrchion na chwmnïau, a byddwn yn cynnwys y wybodaeth hon ochr yn ochr â'r deunyddiau hyrwyddo sy'n gysylltiedig â chynhyrchion, gan gynnwys gweithdai.

Ni ddylai unrhyw sefydliad partner awgrymu bod cydnabyddiaeth y BPRh o'i gefnogaeth yn golygu ei fod yn cymeradwyo ei bolisïau, ei weithredoedd na'i gynhyrchion.

Rhaid i unrhyw sefydliad arall gael caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan y BPRh i ddefnyddio ei logo. Ni cheir cyhoeddi datganiadau i'r wasg sy'n cyfeirio at y BPRh heb gael cymeradwyaeth ganddo ymlaen llaw.

Fel arfer, dim ond digwyddiadau a chyhoeddiadau y mae'r BPRh wedi'u trefnu, eu hysgrifennu, eu comisiynu neu eu cyd-gynhyrchu gyda phartneriaid y bydd y BPRh yn eu cymeradwyo.

Eithriadau

Ni fydd y BPRh yn cynnig defnyddio na gwerthu data personol y mae'n ei ddal dan y Ddeddf Diogelu Data neu'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol fel rhan o unrhyw drefniant partneriaeth sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad hwn. Cliciwch yma i weld rhybudd preifatrwydd Cyngor Sir Ddinbych. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn cynnal ein tîm rhanbarthol, er ein bod yn gweithio ar draws Gogledd Cymru.

Mae'r BPRh yn mynnu cadw rheolaeth olygyddol lawn ar ei waith cyhoeddedig, ac er ei fod yn fodlon derbyn awgrymiadau, nid yw'n caniatáu i noddwyr nac arddangoswyr benderfynu ar gynnwys digwyddiadau na deunyddiau cyhoeddedig cysylltiedig.

Ni fydd y BPRh yn cydweithio â, nac yn derbyn rhoddion gan sefydliadau y mae eu gweithgareddau, eu polisïau, eu nodau neu eu hamcanion yn groes i neu'n tynnu sylw oddi wrth ei rai ef ei hun. Bydd yn osgoi partneriaethau gyda chwmnïau sy'n ymwneud ag unrhyw rai o'r gweithgareddau canlynol:

- Gweithgarwch troseddol.
- Gweithgynhyrchu, gwerthu neu ddosbarthu arfau neu systemau arfau.
- Gweithgynhyrchu tybaco neu alcohol.
- Cwmnïau benthyciadau diwrnod cyflog.
- Pornograffi.
- Troseddau hawliau dynol.
- Niwed amgylcheddol neu ecolegol annerbyniol.

Tryloywder

Bydd rhestr lawn o noddwyr ac arddangoswyr yn cael ei chyhoeddi ar wefan y digwyddiad.

Proses

Y BPRh sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am gontractau noddwyr ac arddangoswyr. Rhaid i Bwrdd Digidol, Data a Thechnoleg' gymeradwyo pob contract. Ar gyfer pob trefniant noddi, bydd y ddwy ochr yn cytuno ar gytundeb ysgrifenedig manwl ar y gefnogaeth benodol a gynigir.